# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(238)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Dyraniadau Canlyniadol Datganiad yr Hydref (30 munud)**

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 i'r Bil Addysg Uwch (Cymru) (5 munud)**
**NDM5659 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:
Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Addysg Uwch (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) adrannau 2 - 59

b) atodlen
c) adran 1
d) teitl hir

**5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth – gwelliant i Deddf Landlordiaid Thenant 1954 (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Memorandwm Rhif 2) (15 munud)**
**NDM5655 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y gwelliannau i'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud â thenantiaethau busnesau yn y cartref, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Tachwedd 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Diwygiedig (Memorandwm rhif 2) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2015 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Mae copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

http://services.parliament.uk/bills/2014-15/smallbusinessenterpriseandemployment.html (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 2)
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Diwygiedig (Memorandwm rhif 2)
Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes

**6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth – taliadau ymadael y sector cyhoeddus (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol – Memorandwm Rhif 3) (15 munud)**
**NDM5656 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud â thaliadau ymadael y sector cyhoeddus, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Tachwedd 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Mae copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:
http://services.parliament.uk/bills/2014-15/smallbusinessenterpriseandemployment.html (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 3)
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**7 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dadreoleiddio - diwygiad mewn perthynas â Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983 Deddf Pysgodfeydd 1868 a Deddf Pysgodfeydd 1891 (Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Memorandwm Rhif 5) (15 munud)**
**NDM5657 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**
Cynnig y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, gytuno y dylai darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio, sy'n berthnasol i bysgodfeydd a physgota i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried gan Senedd y DU.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 5) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(iii).

Mae copi o'r Bil Dadreoleiddio ar gael yma:
http://services.parliament.uk/bills/2013-14/deregulation.html (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm rhif 5)

**Cynnig i atal dros dro Rheol Sefydlog 11.16 i ganiatáu i'r eitem nesaf o fusnes gael ei thrafod (5 munud)**

**NNDM5662 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal dros dro y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5661 gael

ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 13 Ionawr 2015.

**8 Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014 (15 munud)**
**NNDM5661 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo'r Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Rhagfyr 2014.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**9 Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2015-16 (60 munud)**
**NDM5658 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 1) 2015-2018 (Setliad Terfynol - Cynghorau), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2015.

**Dogfen Ategol**
Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol 2015-16

**10 Dadl: Adroddiad Blynyddol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2013-14 (60 munud)**
**NDM5660 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol (2013-14) Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, a anfonwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Ionawr 2015.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad Blynyddol Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2013-14

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod ei ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ynghylch y pwysau cynyddol ar y gwasanaeth a'i allu i ateb y galw.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cymryd camau brys i wella mynediad i wasanaethau CAMHS; a

b) cynnal asesiad o gyllid ar gyfer CAMHS yng Nghymru i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael adnoddau digonol i ddiwallu anghenion pobl ifanc ar draws y wlad.

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cleifion sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn cael gwybodaeth drylwyr am y dewis o driniaethau a'u hargaeledd ac i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau mewn modd amserol.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl a chorfforol ac i roi terfyn ar stigma.

**Gwelliant 5 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at effaith diwygiadau lles ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

**Gwelliant 6 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl i hyrwyddo cyflogaeth.

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r ymgyrch 'Amser i newid' i fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.

**11 Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 14 Ionawr 2015

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Ionawr 2015 i'w hateb ar 13 Ionawr 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer gwella gwasanaethau GIG yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)2026(FM)

2. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Nhrac Môn? OAQ(4)2029(FM)**W**

3. **Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol? OAQ(4)2032(FM)

4. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drin cyflyrau'r galon yng Nghymru? OAQ(4)2036(FM)

5. **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cynnal ei gyfarfod nesaf gyda Phrif Weinidog y Deyrnas Unedig? OAQ(4)2038(FM)**W**

6. **Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer taliadau gwledig yn dilyn penderfyniad i ddiddymu'r taliad ar wahân ar gyfer rhostir? OAQ(4)2034(FM)**W**

7. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am astudiaeth Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd ynghylch arferion ffordd o fyw dynion o Gaerffili? OAQ(4)2025(FM)

8. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella diogelwch ar y ffyrdd yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)2030(FM)

**9. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gais am lais i Gymru ar ymchwiliad y panel annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol? OAQ(4)2040(FM)

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau iechyd lleol ar gyfer pobl Brycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)2028(FM)

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gydag asiantaethau Llywodraeth y DU ynghylch protocolau ar gyfer rheoli Ebola? OAQ(4)2033(FM)

**12. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i gryfhau'r economi wledig yn 2015? OAQ(4)2039(FM)

**13. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella tai cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)2035(FM)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drefniadau cyflog yn y sector cyhoeddus? OAQ(4)2024(FM)

**15. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)2027(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 20 Ionawr 2015 a dydd Mercher 21 Ionawr 2015**
**Dydd Mawrth 27 Ionawr 2015 a dydd Mercher 28 Ionawr 2015**
**Dydd Mawrth 3 Chwefror 2015 a dydd Mercher 4 Chwefror 2015**
*************************************************************************

**Dydd Mawrth 20 Ionawr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth: Ein Gorffennol a'i Ddyfodol (30 munud)
- Gorchymyn Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015 (30 munud)
- Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2015 (15 munud)
- Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Addysg Uwch (Cymru) (150 munud)
  *Os bydd y Cynulliad yn cytuno ar y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig. Os nad yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.*

**Dydd Mercher 21 Ionawr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Dwristiaeth (60 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

  **NNDM5639 Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn croesawu cyflawni cynllun gweithredu strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer anhwylder yn y sbectrwm awtistig.

  2. Yn nodi bod angen gwneud mwy i ddiwallu anghenion plant ac oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru.

  3. Yn credu y byddai gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn arwain at fwy o eglurder ynghylch y gofal a'r cymorth y gall pobl ag awtistiaeth ei ddisgwyl.

  4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Deddf Awtistiaeth ar gyfer Cymru.

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

- Dadl Fer - Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 27 Ionawr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Gwella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adnewyddu'r Agenda Cynhwysiant Ariannol (30 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2013-14 (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2014 (60 munud)

**Dydd Mercher 28 Ionawr 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Mark Isherwood (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 3 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ardrethi Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Gwella uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Arloesi Meddygol (15 munud)
- Dadl: Adolygiad o Addasiadau Byw'n Annibynnol (60 munud)

**Dydd Mercher 4 Chwefror 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Peter Black (Gorllewin De Cymru) (30 munud)